GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
University Health Board

# Diweddariad am y brechlyn
# Vaccination Update










*Cylchlythyr Wythnosol* *Weekly Newsletter* CYHOEDDIAD 7: wythnos **01/03/2021**

## Cynnydd Wythnosol (22 Chwefror - 1 Mawrth)

**Rydym bellach wedi rhoi 198,700 o frechlynnau ar draws ardal ein Bwrdd Iechyd. Erbyn diwedd y dydd heddiw, byddwn wedi rhoi dros 200,000 o frechlynnau** (cyfuniad o'r dos cyntaf a'r ail ddos). Mae'r ffigwr arbennig hwn yn dod 24 diwrnod yn unig ar ôl inni gyrraedd ein cyfanswm o 100,000 o frechlynnau'n cael eu rhoi.

Rydym nawr wedi brechu 89.9% o Grŵp 5, y rheiny sydd rhwng 65-69 oed. Mae 22,548 wedi derbyn eu hail ddos o'r brechlyn erbyn hyn.

Mae meddygon teulu ar hyn o bryd yn brechu unigolion cymwys sydd yng Ngrŵp 6 a hyd yn hyn wedi brechu 18,612 o bobl. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys oedolion rhwng 16 a 64 oed gyda chyflyrau iechyd sylfaenol sy'n eu rhoi nhw mewn mwy o risg o glefyd difrifol a marwolaethau a gofalwyr di-dâl perthnasol.

Mae canllawiau cenedlaethol diwygiedig y JCVI yn disgrifio gofalwyr di-dâl perthnasol fel:
"Y rheiny sy'n gymwys i gael lwfans gofalwr, neu'r rheiny sy'n unig ofalwr neu brif ofalwr o berson hŷn neu anabl sydd mewn mwy o rig o farwolaeth o achos COVID-19 ac felly'n **fregus yn glinigol**. Mae'r rheiny sy'n glinigol fregus i COVID yn cynnwys plant gydag anableddau niwro difrifol, y rheiny sydd wedi'u dynodi'n Eithriadol o Fregus i Niwed yn Glinigol (Gwarchod), oedolion sydd â chyflyrau iechyd sylfaenol a'r rhai sydd angen gofal oherwydd eu hoedran. Dylid brechu gofalwyr cymwys yng ngrŵp blaenoriaeth 6."

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ar 24 Chwefror 2021 yn amlinellu pa grwpiau o ofalwyr di-dâl y dylid eu blaenoriaethu ar gyfer brechu. Mae tri ffactor pwysig i'w hystyried isod:

I. Pa mor fregus yw'r person sy'n derbyn gofal
   - Yn 65 oed neu'n hŷn (grŵp 5)
   - Yn cael ei ystyried yn hynod o fregus yn glinigol (grŵp 4)
   - Gyda chyflwr iechyd sylfaenol (grŵp 6)
   - Plentyn o dan 16 oed sydd ag anghenion meddygol cymhleth/ niwro-anableddau difrifol
II. Natur y gofal a ddarperir i'r rhai 16 oed a hŷn
III. Y gofalwr di-dâl yw'r unig ofalwr neu'r prif ofalwr

Manylion llawn yn https://gov.wales/covid-19-vaccination-and-unpaid-carers

Mae dull Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan o gefnogi gofalwyr cyflogedig neu ddi-dâl yn unol â chanllawiau'r JVCI a Llywodraeth Cymru.

Bydd eich meddyg teulu yn ymwybodol o'ch anghenion chi a'ch teulu. Os ydych yn bodloni'r meini prawf uchod, bydd eich meddyg teulu yn cysylltu â chi cyn gynted ag y bydd cyflenwad o frechlynnau ar gael i chi. Os nad oes unrhyw un yn cysylltu â chi o fewn tair wythnos, cysylltwch â'ch meddyg teulu.

**Cyfanswm nifer y brechlynnau Covid-19 wedi eu rhoi ar draws ardal ein Bwrdd Iechyd (cyfuniad o'r dos cyntaf a'r ail ddos)**

**198,700**

**Cyfanswm y dos cyntaf 176,152**

**Cyfanswm yr ail ddos 22,548**

(hyd at 10pm 28/02/2021)

**FFIGYRAU BRECHU**
(hyd at 10pm 28/02/2021)

| | |
|---|---|
| **Pobl 80 oed a'n hŷn** | **91.3%** |
| **Pobl 75-79 mlwydd oed** | **93.8%** |
| **Pobl 70-74 mlwydd oed** | **94.3%** |
| **Pobl 65-69 mlwydd oed** | **89.9%** |
| **Grŵp 6** | **18,612** |

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

**Diolch i chi am eich cefnogaeth barhaus.**
*Gyda'n gilydd byddwn yn cadw Gwent yn ddiogel.*

## Cleifion sy'n Gaeth i'r Tŷ

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i frechu pobl sy'n gaeth i'r tŷ ac mae'r mwyafrif helaeth o'r cleifion hyn eisoes wedi cael brechlyn.

Rydym yn defnyddio timau o Nyrsys Ardal, meddygon teulu ac unedau symudol i gyflwyno'r brechlyn i'r rhai sy'n gaeth i'r tŷ ac sy'n gymwys yn unol â grwpiau blaenoriaeth y Cydbwyllgor Brechu ac Imiwneiddio (JCVI) 1-6.

Byddwn yn cysylltu â chleifion sy'n gaeth i'r tŷ cyn y disgwylir iddynt gael eu brechu fel eu bod yn gwybod pryd i ddisgwyl ymweliad gan y tîm.

## Croeso Cynnes yn Nhrecelyn ar Ddydd Gŵyl Dewi




Roedd y tîm Brechu yng Nghanolfan Frechu Màs Trecelyn wrth law i gynnig croeso cynnes Cymreig heddiw, wrth iddyn nhw lenwi'r ganolfan gyda Chennin Pedr i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Roedd pob aelod o staff â rôl yn y ganolfan, o Imiwneiddwyr, staff Gweinyddol a Fferyllwyr, i staff y Ganolfan Hamdden a chydweithwyr Milwrol, yn gwisgo cennin Pedr i'n Nawddsant Yng Nghymru.
Dydd Gŵyl Dewi hapus!

## Beth i'w ddisgwyl pan fyddwch yn cael eich brechu

Byddwch yn derbyn gwybodaeth am ba bryd a ble i gael eich brechu. Ar ddiwrnod eich apwyntiad, gwisgwch ddillad ymarferol fel ei bod yn hawdd rhoi'r pigiad yn eich braich. Os oes gennych ofn nodwyddau neu os ydych yn teimlo'n bryderus, rhowch wybod i'r sawl sy'n rhoi eich brechlyn i chi. Byddant yn deall ac yn gallu eich cefnogi. Mae'n bwysig cael dau ddos y brechlyn i roi'r amddiffyniad hirdymor gorau i chi. Cadwch eich cerdyn brechlyn yn ddiogel a gwnewch yn siŵr eich bod yn mynd ag ef i'ch apwyntiad ar gyfer eich ail ddos.

## Diolch i chi am eich cefnogaeth

Diolch yn fawr iawn i bawb am anfon cymaint o negeseuon cadarnhaol yn dilyn apwyntiadau brechu...

*"Cefais fy Mrechlyn Covid ddydd Llun diwethaf ym Mhentref Chwaraeon Cwmbrân ac rwyf eisiau diolch i bawb sy'n gysylltiedig â'r broses am eu sgiliau a'u proffesiynoldeb effeithlon a chyfeillgar wrth sicrhau bod popeth wedi mynd yn ddidrafferth. Rwy'n hynod ddiolchgar."* Marilyn Rankin

Am ragor o wybodaeth, ac i ganfod ym mha grŵp blaenoriaeth ydych chi, ewch i: https://www.gov.uk/government/publications/priority-groups-for-coronavirus-covid-19-vaccination-advice-from-the-jcvi-30-december-2020

Cyhoeddir ffigyrau brechu dyddiol gan Iechyd Cyhoeddus ar eu gwefan: https://public.tableau.com/profile/public.health.wales.health.protection#!/vizhome/RapidCOVID-19virology-Public/Headlinesummary

Mwy a wybodaeth a Chwestiynau Cyffredin ar ddarpariaeth, cymhwysedd a diogelwch y brechiad, ewch i: https://phw.nhs.wales/topics/immunisation-and-vaccines/covid-19-vaccination-information/about-the-vaccine/

## Trefn Brechlynnau

| | |
|---|---|
| 80 oed a hŷn | Meddygfeydd<br>Meddyg Teulu |
| 72-79 oed | Canolfannau Brechu Torfol |
| 70-71 oed | Meddygfeydd |
| Hynod Fregus Yn Glinigol | Meddygfeydd |
| 65-69 oed | Canolfannau Brechu Torfol |
| 60-64 oed | Canolfannau Brechu Torfol |
| 55-59 oed | Canolfannau Brechu Torfol |
| 50-54 oed | Meddygfeydd |
| Yn Gaeth i'r Tŷ | Timau Symudol |
| Grŵp 6 | Meddygfeydd |

## Apwyntiadau

**Gwyddom fod rhai pobl yng ngrwpiau blaenoriaeth 1-4 nad ydym wedi gallu eu brechu eto am nifer o resymau.**

Os ydych yn 80 oed a hŷn, yn 70-71 oed neu'n hynod fregus yn glinigol, ac nad ydych wedi cael gwahoddiad am apwyntiad, cysylltwch â'ch Meddyg Teulu. I'r bobl hynny sydd rhwng 72-79 oed, os nad ydych wedi cael llythyr apwyntiad eto, cwblhewch y ffurflen drwy'r ddolen ganlynol: https://abuhb.nhs.wales/coronavirus/covid-19-vaccine/aged-72-79-and-not-received-your-invitation/

Os cewch apwyntiad, gwnewch bob ymdrech i fynychu. Peidiwch â chysylltu â'r ganolfan drefnu na phractis eich Meddyg Teulu os nad ydych wedi cael eich llythyr apwyntiad hyd yn hyn.